Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr i 3-11

Dogfen Ymgynghori

Fersiwn plant cynradd

Medi 2018

CYFLWYNIAD

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Llanbedr wedi gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried newid oedran plant sy'n gallu mynd i'r ysgol o 4-11 i 3-11.

Cyn gwneud y penderfyniad, mae rhaid i Gyngor Gwynedd roi gwybod i disgyblion yr ysgol am y cynnig a rhoi cyfle iddynt gynnig sylwadau ar y syniad.

Beth mae'r newid yma yn ei olygu?

- **Bydd plant yn gallu cychwyn yr ysgol yn 3 oed**
- **Bydd dosbarth newydd yn yr ysgol, sef dosbarth meithrin**
- **Mi fydd yna ychydig mwy o blant yn yr ysgol**

Beth wyt ti yn meddwl o'r syniad?

Cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu os ydynt am newid yr oedran, rydym eisiau clywed dy farn di am y syniad.

Sut mae gwneud hyn?

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau inni er mwyn rhoi eu barn.

Er mwyn gwneud hyn gellir cwblhau yr holiadur isod.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn sylwadau erbyn 29 Hydref 2018.

Holiadur

Mae Cyngor Gwynedd ac Ysgol Llanbedr yn meddwl newid oedran plant fydd yn gallu mynd i'ch ysgol.

Mi fydd hyn yn golygu cael dosbarth meithrin fel bod plant yn gallu cychwyn yr ysgol yn 3 oed.

- **Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** (Ticia <u>un</u> dewis)



- Oes yna unrhyw beth yn dy boeni am hyn?

- Oes yna unrhyw beth arall wyt ti eisiau ei ddweud am y syniad?

Mi fedri di ddefnyddio tudalen ychwanegol os wyt ti eisiau ysgrifennu mwy.

Diolch yn fawr am roi amser i lenwi'r holiadur yma.

Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth ewch ar safle wê'r Cyngor
  www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio:
  Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post at:
  Swyddfa Moderneiddio Addysg,
  Cyngor Gwynedd
  Caernarfon
  Gwynedd
  LL55 1SH